| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 23 Gorffennaf 2019 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog A151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor. | |

# 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 30 Mehefin 2019 ynghylch:

- Adroddiadau Archwilio mewnol a gyhoeddwyd ers 16 Ebrill 2019
    - CONTEST – Gwrthderfysgaeth (adroddiad ar wahân)
    - Diwygio Lles – Incwm Rhent Tai (adroddiad ar wahân)
    - Gwiriad Iechyd Llywodraethiant Gwybodaeth Ysgolion
- Gwaith dilyn i fyny a wnaed ar adroddiadau archwilio mewnol
    - Cydymffurfiaeth y Diwydiant Cardiau Talu â Safonau Diogelwch Data
- Mynd i'r Afael â 'Materion/Risgiau'
- Cynnydd o ran Darparu'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2019/20
- Safoni Graddfeydd Sicrwydd a Diffiniadau
- Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol

# 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd diweddaraf a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Hefyd gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.




# DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

## GORFFENNAF 2019

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS


ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL A GYFLWYNWYD ____ 3

CONTEST - Gwrthderfysgaeth ____ 3

Diwygio Lles - Incwm Rhent Tai ____ 4

Gwiriad Iechyd Llywodraethiant Gwybodaeth Ysgolion ____ 4

DILYN I FYNY ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL ____ 5

Cydymffurfiaeth y Diwydiant Cardiau Talu â Safonau Diogelwch Data ____ 5

Gwaith dilyn i fyny sydd ar y gweill ____ 6

Gwaith dilyn i fyny sydd wedi'i drefnu ____ 6

MYND I'R AFAEL Â 'MATERION /RISGIAU' ____ 7

CYNNYDD O RAN DARPARU'R CYNLLUN GTWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL 2019/20 ____ 8

SAFONI GRADDFEYDD SICRWYDD A DIFFINIADAU ____ 9

DATGANIAD CIPFA AR RÔL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL ____ 10

ATODIAD A - ARCHWILIAD MEWNOL O'R CYNLLUN GWEITHREDU 2019/20 ____ 11

# ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL A GYFLWYNWYD

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion / risgiau a godwyd yng nghynllun gweithredu'r cynllun. Yn unol â'r dull newydd o archwilio, mae aelodau'r pwyllgor a'r deilydd portffolio perthnasol wedi derbyn copïau llawn o'r adroddiad ar wahân.

2. Rydym wedi cwblhau **tri** adroddiad yn y cyfnod dan sylw a gwelir crynodeb ohonynt isod:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Rhesymol | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|
| CONTEST - Gwrthderfysgaeth | Rhesymol | 0 | 4 | 0 | 0 |
| Diwygio Lles - Incwm Rhent Tai | Rhesymol | 0 | 1 | 3 | 4 |
| Gwirio Iechyd Llywodraethiant Gwybodaeth Ysgolion | Amherthnasol | Amh | Amh | Amh | Amh |

## CONTEST – Gwrthderfysgaeth

| Sicrwydd | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Rhesymol | 0 | Critigol |
| | 4 | Sylweddol |
| | 0 | Rhesymol |

3. Roedd ein hadolygiad yn mynd ati i geisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

   **Oes gan y cyngor drefniadau digonol yn eu lle er mwyn cyflawni ei ddyletswydd statudol 'Prevent' yn unol â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 fel yr amlinellir yn Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth EM (CONTEST) 2018?**

4. Ar y cyfan, daeth ein hadolygiad i'r casgliad fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth weithredu fframwaith effeithiol o reoliadau er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei ddyletswyddau 'Prevent' statudol mewn perthynas â Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth EM (CONTEST) 2018.

5. Rydym wedi tynnu sylw at bedwar mater/risg sydd angen sylw rheolwyr sydd, o ganlyniad i effaith bosibl y risg, yn cael eu hystyried yn 'Sylweddol' ac yn rhai a drafodir ar wahân yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol yn bennaf ac felly gallwn ddarparu sicrwydd **'Rhesymol'** o ran llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth o'r maes hwn. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr ac rydym wedi ei nodi mewn dogfen ar wahân.

## Diwygio Lles – Incwm Rhent Tai

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 3 | Rhesymol |

6. Roedd ein hadolygiad yn mynd ati i geisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

   **Oes gan y cyngor drefniadau digonol yn eu lle er mwyn rheoli goblygiadau diwygio lles, yn benodol yr effaith ar allu'r Cyngor i gasglu ei incwm rhent tai?**

7. Ar y cyfan, mae ein hadolygiad yn casglu fod gan y Cyngor nifer o **reoliadau gweithredol effeithiol** yn eu lle er mwyn rheoli'r effaith ar allu'r Cyngor i gasglu ei incwm rhent tai.

8. Er ein bod wedi tynnu sylw at bedwar mater / risg sydd angen sylw rheolwyr, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol yn bennaf. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr ac rydym wedi ei nodi mewn dogfen ar wahân. Felly, o fewn cwmpas ein hadolygiad, gallwn ddarparu sicrwydd **'Rhesymol'** o ran llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth o'r maes hwn.

## Gwiriad Iechyd Llywodraethiant Gwybodaeth Ysgolion

9. Fe wnaethom gomisiynu'r Ymarfer Risg Strategol gan Zurich Risk Engineering (ZRE) i gynnal gwiriad iechyd o lywodraethiant gwybodaeth a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a oedd wedi'u cynnwys ar draws yr holl ysgolion ar yr Ynys. Roedd hyn yn cynnwys holiadur sefyllfaol yn cynnwys sefyllfaoedd GDPR yn ymwneud â senarios penodol a chyfweliadau wyneb yn wyneb gyda chwe ysgol benodol er mwyn deall eu hagweddau tuag at lywodraethu gwybodaeth a diogelu data. Aeth aelod o'r tîm archwilio mewnol ar yr ymweliadau â'r ysgolion a chydlynu'r gwaith o ddosbarthu a chasglu ymatebion yr holiaduron. Fe wnaeth ZRE hefyd adolygu'r deunyddiau hyfforddiant a roddwyd fel rhan o raglen GDPR y Gwasanaeth Dysgu.

10. Gan fod hwn yn ddarn o waith gan ymgynghorwyr ac er gwybodaeth fewnol yn unig, nid ydym wedi darparu graddfa sicrwydd. Yn ogystal, ni fyddwn yn gofyn i'r Pennaeth Dysgu roi cynllun gweithredu at ei gilydd ac ni fyddwn yn tracio'r argymhellion a wnaed gan yr ymgynghorydd yn ffurfiol. Fodd bynnag, byddwn yn ail ymweld â'r maes hwn fel rhan o'n gwaith dilyn i fyny arferol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

11. Mae'n amlwg o ddarganfyddiadau'r ymgynghorydd bod ysgolion wedi gwneud cynnydd o ran symud tuag at gydymffurfio â GDPR ond eu bod yn cael eu dal yn ôl yn sylweddol gan anallu'r Gwasanaeth Dysgu i recriwtio Swyddog Diogelu Data (DPO). Er hysbysebu'r swydd yn allanol dair gwaith (dwywaith ym mis Medi 2018 ac unwaith ym mis Mai 2019), mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi methu â recriwtio ymgeisydd addas. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi hysbysebu'r swydd yn fewnol, gyda dyddiad cau o 05/07/19.

12. Mae GDPR yn nodi gofyniad bod pob corff cyhoeddus yn penodi DPO, gan gynnwys pob ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y wlad gan bod eu gweithgareddau craidd yn cynnwys 'monitro pynciau data ar raddfa fawr yn rheolaidd ac yn systematig'. Tra nad yw'r rheoliadau yn nodi unrhyw gymwysterau penodol sydd eu hangen ar DPO, mae angen iddynt fod â 'gwybodaeth arbenigol am arferion a chyfreithiau diogelu data'. Mae peidio â chael DPO yn ei le yn cynyddu'r risg o fethu â chydymffurfio â deddfwriaethau diogelu data ac yn cynyddu'r potensial o ddirwyon rheoliadol sylweddol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth petai achosion o dorri rheolau diogelu data yn digwydd. Mae yna hefyd risgiau pellach o ymchwiliad / gorfodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os nad oes DPO penodedig wedi'i benodi, a bod digwyddiad sydd angen ei adrodd yn codi, gan achosi niwed i enw da'r ysgolion a'r Cyngor.

# DILYN I FYNY ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL

13. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn i fyny'r holl adroddiadau gyda graddfa sicrwydd o 'Cyfyngedig' neu is. Rydym wedi cwblhau **un** adolygiad dilyn i fyny yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r canlyniad canlynol. Mae manylion pellach am y gwaith a wnaed ar gael isod:

| Teitl yr Archwiliad | Adolygiad | Cwblhau Dilyn i Fyny | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Rhesymol | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cydymffurfiaeth â Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Mehefin 2019 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 1 | 1 |

## Cydymffurfiaeth y Diwydiant Cardiau Talu â Safonau Diogelwch Data

14. Fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad o gydymffurfiaeth gyda Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS) yn ystod 2016/17 gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gadarnhau ym mis Medi 2016. Canlyniad hyn oedd **'Sicrwydd Cyfyngedig'**, gyda 19 o argymhellion.

15. Fe wnaethom gynnal yr adolygiad dilyn i fyny cyntaf ym mis Rhagfyr 2017 a gweld mai ychydig iawn o ddatblygiadau oedd rheolwyr wedi eu gwneud, gyda dim ond dau o'r argymhellion gwreiddiol wedi eu gweithredu. Cafodd argymhellion eu diwygio a'u hailadrodd yn y cynllun gweithredu, yn unol â'r agwedd archwilio newydd o godi 'materion' a 'risgiau'. Canlyniad hyn oedd bod 11 o 'faterion/risgiau' yn weddill yn dilyn yr archwiliad dilyn i fyny cyntaf.

16. Fe wnaethom gwblhau ein hail adolygiad dilyn i fyny ym Mehefin 2019, a ddaeth i'r casgliad bod **rheolwyr wedi ymgymryd â gwaith sylweddol** er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith a oedd angen ei wneud. Gallwn gadarnhau fod gan y Cyngor bellach gynllun ffurfiol yn ei le, y mae tîm prosiect yn ei adolygu a'i fonitro yn rheolaidd. Mae grŵp sefydlog ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth parhaus wrth symud ymlaen. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â PCI DSS ac mae tystysgrifau cydymffurfiaeth ar gael ar gyfer bob adran. Mae polisïau a gweithdrefnau wedi eu datblygu a'u dosbarthu i'r holl staff perthnasol ac mae'r tîm prosiect wedi datblygu pecyn hyfforddiant. Mae'r holl staff sy'n ymwneud â thaliadau wedi adolygu a derbyn y pecyn hyfforddiant. Mae'n orfodol i'r holl staff sy'n ymwneud â thaliadau.

17. Mae'r Cyngor bellach yn ymwybodol o'r amgylchedd cardiau talu ac mae'r rheolwr prosiect wedi mapio'r mathau o drafodion ar gyfer bob adran. Bydd y rheolwr prosiect yn datblygu hyn ymhellach wrth i'r Cyngor ychwanegu adrannau eraill.

18. Mae'r tîm prosiect yn edrych ar y modd y mae cydrannau'r PCI DSS wedi eu rhoi at ei gilydd ar hyn o bryd a bydd yn cefnogi asesiad o unrhyw effeithiau y gallai newidiadau i'r isadeiledd TG eu cael.

19. Mae ein hadolygiad dilyn i fyny yn cadarnhau bod y Cyngor bellach mewn **sefyllfa gryf i arddangos cydymffurfiaeth gyda PCI DSS** ac mae sylfaen gadarn yn ei lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth parhaus. O'r 11 risg / mater sy'n weddill yn dilyn yr archwiliad dilyn i fyny cyntaf ym mis Ionawr 2018, mae rheolwyr wedi mynd i'r afael â 10 gydag un yn dal ar y gweill. Rydym felly yn gallu ail sgorio ein graddfa sicrwydd a darparu sicrwydd **'Rhesymol'** yn y maes hwn.

## Gwaith dilyn i fyny sydd ar y gweill

20. Rydym yn gweithio ar hyn o bryd ar ddau adroddiad dilynol sydd â ‘**Sicrwydd Cyfyngedig’**:

| Teitl yr Archwiliad | Adolygiad | Dyddiad Dilyn i fyny | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Rhesymol | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm** | Dilyn i fyny tro cyntaf | Meh-19 | **Cyfyngedig** | 0 | 2 | 1 | 3 |
| **Mân Ddyledwyr** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Gorff-19 | **Cyfyngedig** | 0 | 4 | 7 | 11 |

## Gwaith dilyn i fyny sydd wedi’i drefnu


21. Ar hyn o bryd, mae gennym **dri** darn o waith dilyn i fyny wedi’u trefnu ar gyfer gweddill y flwyddyn. Efallai yr ychwanegir at y rhain gan ddibynnu ar yr adolygiadau y byddwn yn eu cynnal drwy gydol y flwyddyn:

| Teitl yr Archwiliad | Adolygiad | Dyddiad Dilyn i fyny | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Rhesymol | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Taliadau Uniongyrchol** | Dilyn i fyny tro cyntaf | Medi-19 | **Cyfyngedig** | 0 | 0 | 5 | 5 |
| **Rheoliadau Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau** | Dilyn i fyny pedweryd d tro | ~~Gorff-19~~ Hydref 2019[1] | **Cyfyngedig** | 0 | 3 | 2 | 5 |
| **Llywodraethiant Gwybodaeth Ysgolion** | Adolygiad Cyntaf | Tachwedd 2019 | **Amh** | Amh | Amh | Amh | Amh |

[1] Mae’r gweithredoedd rheoli er mwyn mynd i’r afael â ‘Materion/Risgiau’ a godwyd yn yr adolygiad Rheoliadau Systemau - Mynediad Rhesymegol a Rhannu Dyletswyddau yn ddibynnol ar ailstrwythuriad y swyddogaeth Cyflogres/Taliadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd, gyda disgwyliad y bydd wedi’i gwblhau erbyn Medi 2019. Felly, rydym wedi gohirio’r adolygiad dilyn i fyny tan ei fod wedi’i gwblhau.

# MYND I’R AFAEL Â ‘MATERION /RISGIAU’

22. Mae’r graff isod yn amlygu perfformiad rheolwyr wrth fynd i’r afael â ‘materion/risgiau’ a rhoi gweithredoedd ar waith.




| | Ch3 2016/17 | Ch4 2016/17 | Ch1 2017/18 | Ch2 2017/18 | Ch3 2017/18 | Ch4 2017/18 | Ch1 2018/19 | Ch2 2018/19 | Ch3 2018/19 | Ch4 2018/19 | Ch1 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel Coch Ambr | 81% | 81% | 80% | 90% | 97% | 91% | 90% | 93% | 93% | 89% | 87% |
| Canolig Melyn | 82% | 88% | 87% | 90% | 94% | 90% | 92% | 94% | 94% | 93% | 92% |

23. Er nad oes materion/risgiau Uchel neu Goch yn parhau heb eu datrys, mae rhywfaint o ostyngiad wedi bod wrth ddatrys materion/risgiau Uchel/Coch/Melyn, o 89% yn chwarter 4 2018/19 i 87% yn chwarter 1 2019/20. Mae hyn i’w briodoli i nifer fechan o faterion/risgiau i fod i’w cwblhau erbyn diwedd Mehefin (a oedd yn cyd-fynd â’n dyddiad cau ar gyfer adrodd) o ganlyniad i’r archwiliadau Sipsiwn a Theithwyr a CONTEST (Gwrthderfysgaeth) diweddar. Mae yna hefyd nifer o faterion/risgiau sy’n dangos ar y system eu bod angen eu datrys mewn perthynas â’r archwiliad ‘Ysgolion Cynradd - Casglu Incwm’, yr ydym yn eu dilyn i fyny ar hyn o bryd.

24. Mae’r gostyngiad bach o ran perfformiad ar gyfer y risgiau Canolig/Melyn o 93% i 92% i’w priodoli yn bennaf i’r archwiliad ‘Gwasanaethau hamdden - Llywodraethiant a Rheolaeth’ lle yn debyg iawn, roedd nifer o faterion/risgiau yn dod i ben ddiwedd Mehefin.

25. Rydym wedi cael rhybudd gan ein darparwyr meddalwedd bod y fersiwn newydd wedi’i huwchraddio o’r system olrhain bellach ar gael, sy’n darparu swyddogaeth ychwanegol ac sy’n lleihau’r baich o weinyddu’r system.

26. Yn dilyn gweithredu’r diweddariad i’r feddalwedd newydd, byddwch yn ymgymryd ag ymarfer i lanhau’r data hanesyddol ac i adolygu ffurfweddiad y system. Byddwn hefyd yn cymryd y cyfle i adolygu ein fframwaith adrodd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i’r uwch reolwyr a’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyd-fynd â’r agwedd newydd tuag at archwilio a’i fod yn gryno, yn berthnasol ac yn amserol. Wrth baratoi ar gyfer yr uwchraddio, rydym wedi troi’r neges atgoffa awtomatig a anfonir drwy e-bost i ffwrdd ac fe allai hynny fod yn reswm dros reolwyr ddim yn diweddaru’r system.

27. Mae’r tîm TG ar hyn o bryd yn parhau i weithredu hyn, fodd bynnag mae’r gwaith hwn wedi’i oedi o ganlyniad i brofedigaeth o fewn y tîm.

# CYNNYDD O RAN DARPARU'R CYNLLUN GTWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

28. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019/20 wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

29. Roeddem yn gobeithio gorffen ac adrodd yn ôl ar ganlyniad pedwar archwiliad i'r pwyllgor yn y cyfarfod hwn ond am amrywiaeth o resymau, nid yw hyn wedi bod yn bosibl:

    - **Trefniadau Parhad Busnes** – er ei ddechrau, o ganlyniad i absenoldeb salwch tymor hir, roedd yn rhaid gohirio'r archwiliad hwn tan y bydd aelod arall o'r tîm yn rhydd i allu parhau â'r gwaith.
    - **Dilyn i Fyny Diogelu Corfforaethol** – mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Swyddog Monitro, rydym wedi cynyddu cwmpas yr archwiliad hwn yn sylweddol sydd o ganlyniad yn cymryd llawer hirach i gwblhau.
    - **Gwytnwch TG** – mewn ymateb i gais gan y Pennaeth TG, mae angen oedi byr i'r archwiliad gan fod y Cyngor ar hyn o bryd yn ymgymryd â phroses achrediadau Cyber Essentials+ mandadol sy'n fewnwthiol i'r rhwydwaith a'r systemau ac sy'n cymryd llawer o bobl i weithio arno. O ganlyniad, ni all y Pennaeth TG ymgymryd â'r ddau ddarn o waith ac mae'n rhaid i'r Cyber Essentials+ gymryd blaenoriaeth. Yn ogystal, mae'r tîm TG yn ymgymryd â phrawf gwytnwch gan ddefnyddio ei gynllun adfer trychineb a senario penodol er mwyn profi methiant y ganolfan ddata gyfan er mwyn adolygu pa mor effeithiol mae'r ddogfennaeth a'r prosesau yn gweithredu mewn perthynas â dod a systemau ar-lein yn y ganolfan ddata amgen. Bydd y canlyniad yn hysbysu'r archwiliad gwytnwch.
    - **Gwiriad Iechyd Llywodraethiant Gwybodaeth Corfforaethol** – yn dilyn ein profiad o ddefnyddio darparwr sicrwydd allanol er mwyn adolygu ysgolion, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Llywodraethiant Gwybodaeth Corfforaethol, teimlwyd y gallem ymgymryd â'r darn hwn o waith yn fwy effeithiol yn fewnol. Fodd bynnag, o ganlyniad i absenoldeb salwch tymor hir, nid ydym wedi gallu parhau â'r darn hwn o waith.

30. Yn ogystal â'r archwiliadau dilyn i fyny a nodwyd yn gynharach, mae gwaith yn parhau ar yr archwiliad Diogelu Corfforaethol, ynghyd ag adolygiad o Ddiwygio Lles a'r effaith ar ein goblygiadau mewn perthynas â digartrefedd, ynghyd â chwmpasu adolygiad o wytnwch ariannol y Cyngor.

31. Yn dilyn yr argymhelliad yn y Gwiriad Iechyd Rheoli Risg Corfforaethol i'r gofrestr risg corfforaethol gael ei hadolygu ac i'r risgiau corfforaethol gael eu rhesymoli, mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol ac wedi lleihau risgiau corfforaethol i tua hanner. Adlewyrchir hyn yn y blaenoriaethau archwilio mewnol wrth symud ymlaen.

# SAFONI GRADDFEYDD SICRWYDD A DIFFINIADAU

32. Mae safon 2410 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn nodi bod angen i 'ohebiaeth terfynol ynghylch canlyniadau ymgysylltu' (adroddiadau archwilio) gynnwys casgliadau perthnasol. Ble bo hynny'n briodol, fe ddylai archwilwyr mewnol ddarparu barn, a allai fod yn raddfa, casgliadau neu'n ddisgrifiad arall o'r canlyniadau. I ffurfio'r farn honno, rhaid ystyried y canlyniadau a'u harwyddocâd.

33. Yn unol â'r uchod a fel rhan o'r gwelliant parhaus o'n hagwedd tuag at archwilio fe wnaethom adolygu diffiniadau ein graddfeydd sicrwydd a'u cyflwyno i'r pwyllgor hwn ar gyfer sylwadau yng nghyfarfod Ebrill 2019.

34. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a oedd yna ddiffiniad cenedlaethol safonol o raddfeydd sicrwydd. Yn ogystal, os nad oedd, at ddibenion meincnodi a chysondeb, a ddylem geisio cyflwyno diffiniadau safonol.

35. Fe wnaethom gadarnhau nad oedd diffiniad safonol ar gyfer graddfeydd sicrwydd mewn defnydd. Er myn penderfynu ar y gefnogaeth ar gyfer graddfeydd a diffiniadau safonol, anfonwyd ymholiad at yr holl benaethiaid archwilio ledled Cymru ac at Ymgynghorydd Llywodraethiant Fforwm Gwell Llywodraethiant CIPFA er mwyn cael eu sylwadau.

36. Cadarnhaodd yr ymarfer nad yw diffiniadau'r Cyngor yn rhy annhebyg gyda'r canlynol yn dermau cyffredin yn y rhan fwyaf o Gynghorau:

    - sylweddol neu uchel
    - rhesymol neu ddigonol
    - cyfyngedig neu isaf
    - dim sicrwydd

37. Fodd bynnag, o'r 14 ymateb, dim ond un oedd yn cefnogi'r syniad o safoni graddfeydd sicrwydd a diffiniadau. Roedd y mwyafrif yn nodi'r fantais o gael hyblygrwydd lleol, sy'n galluogi archwilwyr i adrodd ar a chyflwyno casgliadau yn y ffordd sydd fwyaf addas ar gyfer eu sefydliad, yn unol ag agwedd y sefydliad hwnnw tuag at risg. Gellid ond defnyddio diffiniadau safonol ar lefel uchel iawn o ganlyniad i gwmpas amrywiol yr archwiliadau a'r agwedd tuag at archwilio. Yn ogystal, gan nad yw Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) hyd yn oed yn nodi'r angen i roi graddfa, ni ellid gorfodi'r defnydd o system safonol.

38. Mae Grŵp Meincnodi CIPFA hefyd wedi edrych ar hyn. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Llywodraethu CIPFA, er nad yw CIPFA yn gwneud diffiniadau yn orfodol, mae yna beth rhannu arfer dda wedi bod erioed.

# DATGANIAD CIPFA AR RÔL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

39. Lansiodd CIPFA ei Ddatganiad ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol ym mis Ebrill 2019. Galwodd ar y sector cyhoeddus i ddarparu cydnabyddiaeth, cefnogaeth ac anogaeth i benaethiaid archwilio mewnol a'u timau.

40. Mae rôl y pennaeth archwilio mewnol yn nodi pum egwyddor sydd wedi'u halinio â Safonau Archwilio mewnol Sector Cyhoeddus y DU (PSIAS) sy'n amlinellu disgwyliadau allweddol penaethiaid archwilio mewnol a'r amodau a fydd yn caniatáu iddynt fynnu.

41. Mae'r egwyddorion yn nodi'r cyfrifoldebau unigol a sefydliadol ac yn cynrychioli'r arweiniad arfer gorau sy'n gallu bod yn sylfaen i sgyrsiau rhwng archwilwyr mewnol, timau arweinyddiaeth a phwyllgorau archwilio er mwyn cefnogi effeithlonrwydd archwilio mewnol.

42. Wrth lansio'r datganiad, nododd Prif Weithredwr CIPFA, "mae penaethiaid archwilio mewnol ar draws y sector cyhoeddus cyfan yn gweithio mewn amgylcheddau sydd â phwysau cynyddol ac yn delio ag adnoddau cyfyngedig a lefelau cynyddol o risg ariannol. Tra bo nifer o sefydliadau eisoes yn gwneud gwaith da yn y maes hwn, mae'n hanfodol bod penaethiaid archwilio mewnol a'u timau yn cael yr offer sydd ei angen arnynt er mwyn gallu darparu eu sefydliadau â sicrwydd ansawdd."

43. Lansiodd CIPFA hefyd gasgliad o astudiaethau achos i gyd-fynd â'r datganiad newydd. 'Mae 'Arwain archwilio mewnol y sector cyhoeddus: rhoi egwyddorion ar waith' yn rhoi cyfres o enghreifftiau o sefydliadau o bob rhan o'r sector cyhoeddus sy'n arwain y ffordd gyda datrysiadau arloesol er mwyn gallu darparu eu sefydliadau a'u cleientiaid â gwell cymorth a sicrwydd.

44. Gellir lawrlwytho'r dogfennau yn:

    https://www.cipfa.org/roleofthehia
    https://www.cipfa.org/leadinginternalaudit

# ATODIAD A – ARCHWILIAD MEWNOL O'R CYNLLUN GWEITHREDU 2019/20

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Dyddiau Dangosol 2019-20 | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 30/06/19 | Nodiadau / Graddfa Sicrwydd / Dyddiad yr ymgymeryd ddiwethaf | Dyddiad Targed / Gwirioneddol adrodd i bwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | | | |
| Corfforaethol | Parhad Busnes (YM9) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 | C2 | 10 | 0.5 | Gwaith ar y gweill – wedi'i ohirio dros dro | |
| Corfforaethol | Diwygio Lles – Credyd Cynhwysol ac Incwm Rhent Tai (YM 10) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B2 | C2 | 0 | 7.75 | **Ebrill 2019 (2018/19)** | |
| | Diwygio Lles – Digartrefedd (YM10) | | | | 15 | 3.25 | Gwaith ar y gweill | |
| Corfforaethol | Diogelu Corfforaethol (YM11) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 | D2 | 15 | 10 | **Rhagfyr 2018 (2018/19)**<br>Gwaith ar y gweill | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Dyddiau Dangosol 2019-20 | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 30/06/19 | Nodiadau / Graddfa Sicrwydd / Dyddiad yr ymgymerwyd ddiwethaf | Dyddiad Targed / Gwirioneddol adrodd i bwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | CONTEST (Gwrthderfysgaeth ac Atal Radicaleiddio)[2] (YM11) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | | | 0 | 0 | **Ebrill 2019 (2018/19)** | |
| Corfforaethol | Cynllunio Corfforaethol (YM13) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D2 | D3 | 10 | 0 | | |
| Corfforaethol | Gwytnwch Ariannol (YM41) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | A1 | B2 | 15 | 0 | Sgopio ar y gweill | |
| Corfforaethol | Llywodraethiant Gwybodaeth (YM3) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B3 | C3 | 0 | 0 | **Rhagfyr 2018[3] (2018/19)** | |
| Corfforaethol | Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCIDSS) (YM34) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D1 | D1 | 7 | 7 | **Mehefin 2019** | |
| Corfforaethol | Brexit | Cofrestr Risg Gorfforaethol | A2 | | 5 | 0 | | |
| Corfforaethol | Proses Adael | Pryderon wedi'u codi | | | 10 | 0 | | |
| Corfforaethol | Rheoli Risg | Gofyniad PSIAS | | | 5 | 0 | **Chwefror 2019 (ZRE)** | |

[2] Risg 'arunig' yn y gorffennol - YM27
[3] Sicrwydd wedi'i ddarparu ar gyfer Rheoliadau Amddiffyn Data Cyffredinol, Risg Ambr Arunig yn y gorffennol. (YM31)

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Dyddiau Dangosol 2019-20 | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 30/06/19 | Nodiadau / Graddfa Sicrwydd / Dyddiad yr ymgymerwyd ddiwethaf | Dyddiad Targed / Gwirioneddol adrodd i bwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Rheoli Risg Twyll | Gofyniad PSIAS | | | 20 | 0 | | |
| Corfforaethol | Diwylliant – Amddiffyn enw da a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol | Sganio'r Gorwel | | | 10 | 0 | | |
| Corfforaethol | Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddfwriaeth proffil uchel | | | 0 | 0 | Cynnwys ym mhob archwiliad | |
| Corfforaethol | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – Gofynion Rhan 9 | Deddfwriaeth proffil uchel | | | 0 | 0 | Gohiriwyd y gweithredu | |
| **ADNODDAU** | | | | | | | | |
| Adnoddau | Adfer a Dileu | System Ariannol Allweddol – Pryderon A151 | | | 10 | 0 | | |
| Adnoddau | Caffael Corfforaethol (YM22) | Cofrestr Risg Corfforaethol | B2 | D2 | 10 | 0 | **Rhagfyr 2018 (2018/19)** | |
| Adnoddau | Cardiau Caffael Corfforaethol | Pryderon wedi'u codi | | | 20 | 0 | | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Dyddiau Dangosol 2019-20 | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 30/06/19 | Nodiadau / Graddfa Sicrwydd / Dyddiad yr ymgymerwyd ddiwethaf | Dyddiad Targed / Gwirioneddol adrodd i bwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Cyflogres | System Ariannol Allweddol – Ailstrwythuriad a system newydd; Sicrwydd archwiliad allanol | | | 20 | 0 | | |
| **BUSNES Y CYNGOR** | | | | | | | | |
| Gwasanethau Cyfreithiol | Cofrestru Tir (YM26) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 | E2 | 0 | 0 | Risg wedi cau | |
| **TRAWSNEWID** | | | | | | | | |
| TGCh | Archwiliad TG – Diogelwch Seibr (YM28) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B1 | C1 | 15 | 0 | **Chwefror 2019 (2018/19)** | |
| TGCh | Archwiliad TG – Gwytnwch TG (YM38) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 | D2 | 15 | 2 | Gwaith ar y gweill | |
| Adnoddau Dynol | Absenoldeb Salwch (YM23) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | A2 | D3 | 10 | 0 | | |
| Adnoddau Dynol | Recriwtio a Chadw (YM5) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B2 | C2 | 10 | 0 | **Ebrill 2019 (2018/19)** | |
| Adnoddau Dynol | Diwylliant Gweithlu – Gwahaniaethu ac Anghydraddoldeb Staff | Sganio'r Gorwel | | | 10 | 0 | | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Dyddiau Dangosol 2019-20 | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 30/06/19 | Nodiadau / Graddfa Sicrwydd / Dyddiad yr ymgymerwyd ddiwethaf | Dyddiad Targed / Gwirioneddol adrodd i bwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGIAD ECONOMAIDD** | | | | | | | | |
| Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd | Prosiectau Isadeiledd (YM17) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B2 | D2 | 20 | 0.25 | | |
| Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd | Gwasanaethau Hamdden – Buddsoddiad mewn Cyfleusterau (YM32) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B2 | B3 | 10 | 0 | | |
| Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd | Gwasanaethau Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth | Cais Pennaeth Gwasanaeth – newidiadau strwythurol sylweddol (dygwyd ymlaen o 2018/19) | | | 2 | 2 | **Ebrill 2019 (2018/19)** | |
| **GWASANAETHAU PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO** | | | | | | | | |
| Eiddo | Rheoli Asedau | Sganio'r Gorwel | | | 10 | 0 | | |
| Priffyrdd | Pontydd | Sganio'r Gorwel | | | 0 | 0 | | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Dyddiau Dangosol 2019-20 | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 30/06/19 | Nodiadau / Graddfa Sicrwydd / Dyddiad yr ymgymerwyd ddiwethaf | Dyddiad Targed / Gwirioneddol adrodd i bwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **TAI** | | | | | | | | |
| Tai | Sipsiwn a Theithwyr (Gofyniad Deddf Tai 2014) (YM29) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B2 | C2 | 0 | 0 | **Ebrill 2019 (2018/19)** | |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | | | | | |
| Oedolion | Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 | D3 | 0 | 0 | Risg wedi cau | |
| Oedolion | Gofal Iechyd Parhaus | Sganio'r Gorwel | | | 10 | 0 | | |
| **GWASANAETHAU PLANT** | | | | | | | | |
| Plant | Bwrdd Darparu Gwasanaethau Integredig | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B2 | C2 | 0 | 0 | Risg wedi cau | |
| Plant | Ymarfer Gwaith Cymdeithasol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 | D2 | 0 | 0 | Risg wedi cau | |
| **DYSGU** | | | | | | | | |
| Dysgu | Moderneiddio Ysgolion (YM15) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 | C2 | 20 | 0 | | |
| | **CYFANSWM DYDDIAU ARCHWILIO** | | | | **314**[4] | **32.75** | | |

[4] Yn flaenorol 420 diwrnod

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Dyddiau Dangosol 2019-20 | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 30/06/19 | Nodiadau / Graddfa Sicrwydd / Dyddiad yr ymgymerwyd ddiwethaf | Dyddiad Targed / Gwirioneddol adrodd i bwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)** | | | | | | | | |
| | Gwaith Dilynol | Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig sydd angen eu dilyn i fyny, yn cynnwys adrodd ar a gweinyddu 4Action | | | 60 | 14 | | |
| | Gwaith Gwrth Dwyll Cyffredinol, Menter Dwyll Genedlaethol (NFI) | | | | 30 | 1.25 | | |
| | Atgyfeiriadau | | | | 40 | 2.75 | | |
| | Cau gwaith y flwyddyn flaenorol | | | | 13 | 13 | | |
| | **Ardystiadau Grant:** | Gofyniad Grant | | | 20 | | | |
| | Grant Gwisg Ysgol | | | | | 0 | | |
| | Grant Rhentu Doeth Cymru | | | | | 0 | | |
| | Grant Gwella Addysg | | | | | 0 | | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Dyddiau Dangosol 2019-20 | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 30/06/19 | Nodiadau / Graddfa Sicrwydd / Dyddiad yr ymgymerwyd ddiwethaf | Dyddiad Targed / Gwirioneddol adrodd i bwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Grant Datblygu Disgyblion | | | | | 0 | | |
| | Chweched Dosbarth ac Oedolion yn Parhau i Ddysgu | | | | | 0 | | |
| | Ymgynghoriaeth Gorfforaethol | | | | 50 | 18.75 | | |
| | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn cynnwys hyfforddiant i aelodau a hunan-asesu | | | | 60 | 10.5 | | |
| | Adolygiad Rheoli | | | | 50 | 6.75 | | |
| | Wrth gefn | | | | 0 | 0 | | |
| | **CYFANSWM** | | | | **323**[5] | **67** | | |
| **DYDDIAD LLE NA ELLIR CODI AMDANYNT (ANGHYNHYRCHIOL)** | | | | | | | | |
| | Risg ac Yswiriant | | | | 24 | 5.5 | | |
| | Gweinyddu Cyffredinol | | | | 40 | 11.5 | | |
| | Datblygiad Personol ac Adolygiadau, un i un a Chyfarfodydd Tîm | | | | 35 | 3 | | |

[5] Yn flaenorol 440 diwrnod

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid) | Dyddiau Dangosol 2019-20 | Dyddiau Gwirioneddol fel ar 30/06/19 | Nodiadau / Graddfa Sicrwydd / Dyddiad yr ymgymerwyd ddiwethaf | Dyddiad Targed / Gwirioneddol adrodd i bwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rheoli, yn cynnwys ymgysylltu ag Archwilio Allanol a pharatoi cynllun archwilio | | | | 50 | 11.75 | | |
| | Gwyliau, yn cynnwys gwyliau blynyddol, statudol, arbennig a salwch | | | | 414[6] | 164.25 | | |
| | Hyfforddiant a Datblygiad Staff | | | | 100 | 29.5 | | |
| | **CYFANSWM** | | | | **663**[7] | **226** | | |
| | **CYFANSWM ADNODDAU ANGENRHEIDIOL** | | | | **1300** | | | |
| | **ADNODDAU AR GAEL** | | | | **1300** | **325** | | |
| | **DIFFYG ADNODDAU** | | | | **0** | **0** | | |
| | **CYNHYRCHIANT** | | | | **50%**[8] | **31%** | | |

[6] Yn flaenorol 182 diwrnod
[7] Yn flaenorol 440 diwrnod
[8] Yn flaenorol 67%